# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion Cryno o'r Pwyllgor: CC(3)-01-11 : Dydd Iau 13 Ionawr 2011

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_13_01_2011&t=120

**Amser: 09.00 – 11.08**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Sandy Mewies, Delyn (Cadeirydd)
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Lynne Neagle – Tor-faen
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Tystion

Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Eitemau 2 a 3)
Ceri Breeze, Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Dai (Eitems 2 a 3)
Richard Harris, Pennaeth Dros Dro, Adfywio Strategol a Blaenau'r Cymoedd (Eitem 2)
Huw McLean, Rheolwr Adfywio ac Adnewyddu Tai (Eitem 3)
Alyn Williams, Pennaeth y Gangen Dai a Chymunedau – Y Gyfarwyddiaeth Dai (Eitem 3)

### Staff y Pwyllgor

Tom Jackson, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09.00 - 09.02)

1.1Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies, ac roedd Lorraine Barrett yn dirprwyo.

1.3 Datganodd Eleanor Burnham ei bod yn landlord.

### 2: Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog dros Dai (09.02 – 09.46)

2.1 Cafodd y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, Ceri Breeze, Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Dai a Richard Harris, Pennaeth Dros Dro, Adnewyddu Strategol a Blaenau'r Cymoedd eu holi gan y Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddosbarthu'r adroddiad interim sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd ar y 22 o gynlluniau o fewn y rhaglen tai cymdeithasol sydd wedi cael eu sylfaenu ar lefel cod amgylcheddol uwch.

Gofynnwyd i'r Clerc ddosbarthu cofnod gair-am-air o'r wybodaeth ddiweddaraf a roddodd y Dirprwy Weinidog ar lafar i'r Aelodau.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i roi gwybod i'r Aelodau am unrhyw ddatblygiadau yn y Mesur Seneddol ynghylch Lleoleiddio.

Gofynnwyd i'r Clerc anfon y cwestiynau na chafodd yr Aelodau amser i'w gofyn at y Dirprwy Weinidog i gael ymateb iddynt.

### 3: Ymchwiliad i'r sector rhentu preifat – casglu tystiolaeth (09.48 – 10.42)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, Ceri Breeze, Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Dai, Huw McLean, y Rheolwr Adfywio ac Adnewyddu Tai, Alyn Williams, Pennaeth y Gangen Tai a Chymunedau - y Gyfarwyddiaeth Tai, fel rhan o'i ymchwiliad i'r sector rhentu preifat.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu nodyn yn trafod a oes mwy o rôl i Awdurdodau Lleol ddefnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn mewn cysylltiad â diogelu daliadaeth.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i gwestiynau'r Pwyllgor na ystyriwyd yn ystod y cyfarfod.

### 4: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitemau 5 - 7 (10.42)

4.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

### 5: Ymchwiliad i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru – trafod yr adroddiad drafft (10.42 – 11.05)

5.1 Cytunodd yr Aelodau ar yr adroddiad drafft, yn amodol ar y diwygiadau y cytunwyd arnynt.

### 6: Ymchwiliad i'r sector rhentu preifat – trafod y themâu sy'n dod i'r amlwg (11.05 – 11.08)

6.1 Cytunodd yr Aelodau i anfon sylwadau ac argymhellion posibl ar yr ymchwiliad at y Clerc erbyn dydd Mawrth 18 Ionawr.

### 7: Ymchwiliad i'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol – y cylch gorchwyl (11.08 – 11.08)

7.1Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a'r alwad am dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn.

### 8: Papurau a nodwyd

CC(3)-01-11 (p3) - Blaenraglen waith y Pwyllgor

CC(3)-01-11 (p4) – Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog dros Dai yn dilyn ei chyfarfod ar 24 Tachwedd

CC(3)-01-11 (p5) – Gwybodaeth ychwanegol gan yr RNIB yn dilyn y cyfarfod ar 6 Hydref

CC(3)-01-11 (p6) – Llythyr gan Gyngor Celfyddydau Cymru

CC(3)-01-11 (p7) – Gwybodaeth ychwanegol gan Agorfa Cefni

CC(3)-18-10- Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher 8 Rhagfyr

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Ionawr 2011**